

JONES, EVAN (1777 - 1819), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

Enw: Evan Jones
Dyddiad geni: 1777
Dyddiad marw: 1819
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Llandysul, ond o Eglwysrwr yn Sir Benfro yr oedd ei deulu, ac fel dyn o Eglwysrwr y cyfeirir ato gan **Richards** o Lynn. Ymaelododd yn eglwys Pen-y-bont, Llandysul, a dechreuodd bregethu. Yn ôl **David Jones** (*Bed. Deheubarth*, 88), yn 1796 y bu hyn; ond y mae peth amheuaeth, oblegid dywed **David Jones** iddo ddechrau pregethu yn yr un flwyddyn â Daniel Davies, Talgoed, ac yn ôl **Joshua Thomas** (*Hanes y Bed.*, 623), yn 1792 y cychwynnodd hwnnw. Aeth i academi Bryste am bedair blynedd, dan Ryland, a dystiai mai efe oedd y myfyriwr galluocaf a fu ganddo erioed - a barnai **Thomas Shankland** yn ein dyddiau ni mai Evan Jones oedd y galluocaf o wrthwynebwyr **Richards** o Lynn. Os yw dyddiadau **David Jones** yn gywir, y mae'n rhaid bod Evan Jones hyd yn oed pan oedd yn y coleg wedi dechrau cymryd ei ran yn y dadleuon a oedd ar y pryd yn corddi'r enwad yn y de-orllewin, oblegid y mae **William Richards** yn ensynio mai efe oedd yn fwyaf blaenllaw yn yr erlid yng nghymanfa Penybont yn 1797 ar **John Williams** ('Siôn Singer'). Bwriedid galw Evan Jones i fugeilio Penybont, ond ni ddygymyddai ag 'arddodiad dwylo'; felly ar 5 Tachwedd 1800 derbyniodd alwad eglwys (newydd) Bethania, Aberteifi. Yn y cyfamser yr oedd rhwyg 1799 wedi digwydd, a daeth Evan Jones i'r maes dros y Calfiniaid. Cyhoeddodd yn 1801 neu 1802 bamffledyn, *Traethawd Byrr ar Dduwdod Crist*, yn ymosod ar **William Richards**; ac wrth gwrs, atebwyd ef yn chwyrn gan **Richards** mewn amryw o'r *Papurynnau Achlysurol*. Enillodd boblogrwydd mawr fel pregethwr, hyd yn oed yn Broadmead (Bryste) pan oedd yn fyfyrwr; rhwng 1800 a 1810 gwelir ei enw'n fynych yn hanes cymanfaoedd a chyrrdau chwarter y Bedyddwyr; ac y mae traddodiad na fynnai **Christmas Evans** bregethu ar ei ôl. Ond byddai'n meddwi 'n gyhoeddus - edliw **William Richards** yn 1802 iddo 'ei oferedd, yn enwedig ar hyd ffeiriaua a thafarnau Castell Newydd,' e.e. yn 1800. Dygymyddwyd â'i ffaeiddau am gryn amser, ond yn 1810 bu'n rhaid ei ddiarddel. Ar ôl cael ei edfryd i aelodaeth eglwysig fwy nag unwaith, syrthiodd ymaith yn gyfan gwbl. Bu farw yn Eglwysrwr 10 Rhagfyr 1819, yn 42 oed.

Heblaw'r pamffledyn uchod, cyhoeddodd yn 1809 (*Cardiff Catalogue*) *Traethawd ar faddeuant pechod*, cyfieithiad o waith Abraham Booth; dywed **David Jones** iddo hefyd gyhoeddi llyfryn, *Bendithion Rhad, ac nid Prynedig*.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

W. J. Davies, *Hanes Plwyf Llandysul* (1896), 155-6

Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru, 1930, 40-55

a'r cyfeiriadau uchod

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733028

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). JONES, EVAN (1777 - 1819), gweinidog gyda'r Bedyddwyr. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-EVA-1777>

Griffiths

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government